

## SAMUEL, DAVID ('Dewi o Geredigion'; 1856 - 1921), ysgolfeistr a llenor

**Enw:** David Samuel  
**Ffugenw:** Dewi O Geredigion  
**Dyddiad geni:** 1856  
**Dyddiad marw:** 1921  
**Rhiant:** Edward Samuel  
**Rhyw:** Gwryw  
**Gaiwedigaeth:** ysgolfeistr a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Thomas Herbert Parry-Williams

Ganwyd 1 Mawrth 1856 yn Aberystwyth, yn fab i Edward Samuel. Addysgwyd ef yn ysgol yr Eglwys, Aberystwyth, ysgol ramadeg Aberystwyth (Edward Jones), Ysgol Llanymddyfri, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a Choleg Clare, Caergrawnt, lle'r aeth gydag ysgoloriaeth mewn mathemateg ym mis Hydref 1875. Enillodd amryw wobrwyon a graddio, ym mis Ionawr 1879, yn 20fed 'wrangler' mewn mathemateg. Aeth yn athro i ysgol ramadeg Appleby, Westmorland, ac wedyn i ysgol ramadeg Ashbourn, Derbyshire. Ym mis Ionawr 1887 agorodd ysgol ramadeg breifat yn Aberystwyth, lle y bu'n addysgu am naw mlynedd a hanner, nes ei apwyntio (1896) yn brifathro i'r ysgol sir newydd (Ardwyn) yn Aberystwyth. Dan ddylanwad **Silvan Evans** fe ddechreuodd ymddiddori'n fawr yn iaith a llenyddiaeth Cymru, ac fe ysgrifennodd lluo o erthyglau i newyddiaduron a chyfnodolion, yn arbennig *Cymru (O.M.E.)* a'r *Geninen* (am restr gweler **NLW MS 2809B**). Yr oedd ganddo ddi-ddordeb mewn diwinyddiaeth hefyd. Bu'n beirniadu droeon yn yr eisteddfod genedlaethol ac yn arholwr i Orsedd y Beirdd. Fe olygodd gasgliad o faledi Cymraeg, *Cerddi Cymru*, gyda rhagymadrodd ar ganwyr baledi ac ysgrifenywyr baledi. Bu farw 26 Mai 1921.

### Awdur

**Syr Thomas Herbert Parry-Williams**, (1887)

### Ffynonellau

*The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 27 Mai 1921

*The Welsh Gazette*, 2 Mehefin 1921

Archifau LIGC: NLW MS 2809B - NLW MS 2846B: David Samuel manuscripts

### Gweithiau

David Samuel, *Cerddi Cymru casgliad o ganeuon Cymreig, hen a diweddar*, Cyf. I

David Samuel, *Cerddi Cymru casgliad o ganeuon Cymreig, hen a diweddar*, Cyf. II

David Samuel, *Mr David Jenkin Davies* (Caernarfon 1893)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361434

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Parry-Williams, T. H., (1953). SAMUEL, DAVID ('Dewi o Geredigion'; 1856 - 1921), ysgolfeistr a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SAMU-DAV-1856>

Clippwr

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government